# Datganiad Blynyddol am Uniondeb Ymchwil

2016-17

Swansea University
Prifysgol Abertawe

***CYFLWYNIAD*** **(P1718-1380)**

1. Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn falch iawn o'n henw da am ymchwil rhagorol, ac am ansawdd, ymroddiad a phroffesiynoliaeth ein cymuned ymchwil. Deallwn fod rhaid i uniondeb fod yn nodwedd hanfodol o bob agwedd ar ymchwil ac, fel Prifysgol yr ymddiriedir ynddi i ymgymryd ag ymchwil, mae'n rhaid i ni ddangos yn glir ac yn gyson bod ein cymuned ymchwil yn haeddu'r ffydd a roddir ynddi. Felly, mae'r Brifysgol yn disgwyl i bawb sy'n ymwneud ag ymchwil gyflawni'r safonau uchaf o ran uniondeb ymchwil ac yn eu hymddygiad a'u gweithgareddau ymchwil.

2. Mae ***Fframwaith Polisi ar Uniondeb Ymchwil: Moeseg a Llywodraethu*** y Brifysgol yn cydweddu'n llwyr â *Choncordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil* Prifysgolion y DU ('y Concordat'). Rydym yn rhannu pum ymrwymiad allweddol y Concordat ac yn eu cefnogi'n llwyr:
   - Rydym yn ymrwymedig i gynnal y safonau uchaf o ran trylwyredd ac uniondeb ym mhob agwedd ar ymchwil
   - Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ymchwil yn cael ei wneud yn unol â'r fframweithiau, y rhwymedigaethau a'r safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol
   - Rydym yn ymrwymedig i gynnal amgylchedd ymchwil sydd wedi'i ategu gan ddiwylliant o uniondeb ac yn seiliedig ar lywodraethu da, arfer gorau a chymorth ar gyfer datblygiad ymchwilwyr
   - Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio prosesau tryloyw, cadarn a theg i ymdrin ag unrhyw honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil
   - Rydym yn ymrwymedig i gydweithio i gryfhau uniondeb ymchwil ac i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn agored.

3. Yn ogystal, cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ei fod yn disgwyl i bob prifysgol gydymffurfio â'r Concordat, ac i gyhoeddi datganiad sicrwydd blynyddol i ddangos yr ymrwymiad hwn er mwyn parhau'n gymwys i dderbyn cyllid ymchwil CCAUC.

4. Yn y blynyddoedd blaenorol, cyflwynwyd adroddiadau ar uniondeb ymchwil i Gyngor y Brifysgol fel rhan o fecanwaith adrodd blynyddol ar weithgareddau ymchwil.

5. Dyma'r Datganiad Blynyddol o Uniondeb Ymchwil cyntaf i'w lunio gan y Brifysgol ac mae'n berthnasol i flwyddyn academaidd 2016/17. Pan fydd wedi'i gymeradwyo gan Is-Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, caiff ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

6. Mae'r adroddiad yn amlygu gweithgareddau a wnaed yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17 gan y Brifysgol sy'n dangos ei hymrwymiad i'r Concordat:
   - Crynodeb o gamau gweithredu a gweithgareddau a wnaed er mwyn cefnogi a chryfhau dealltwriaeth o faterion uniondeb ymchwil a gweithredu yn eu cylch.
   - Sicrwydd bod y prosesau sydd ar waith i ymdrin â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil yn dryloyw, yn gadarn ac yn deg a'u bod yn parhau'n briodol i anghenion y sefydliad a;
   - Datganiad lefel uchel am unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddygiad mewn ymchwil a gynhaliwyd.

7. Bydd datganiadau'r dyfodol, i'w llunio nes ymlaen yn y flwyddyn galendr, yn cyfeirio at weithgareddau'r flwyddyn academaidd flaenorol, a chânt eu cyflwyno i Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol cyn eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

***GWEITHGAREDDAU I GEFNOGI UNIONDEB YMCHWIL***

***Arweinyddiaeth a chyfrifoldeb***

8. Yr Uwch Ddirprwy Is-ganghellor ar gyfer Arloesi Ymchwil a Datblygu Strategol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y maes.

9. Yn ystod 2016/17, penododd y Brifysgol Arweinydd Academaidd a Dirprwy Arweinydd Academaidd ar gyfer Uniondeb Ymchwil. Mae'r Arweinydd Academaidd a'r Dirprwy Arweinydd Academaidd yn gweithio gydag uwch arweinwyr ar draws y Brifysgol i ddarparu cyfeiriad strategol wrth ddatblygu diwylliant ymchwil o dryloywder ac arfer gorau.

10. Yn ystod 2016/17, penodwyd yr aelodau staff Gwasanaeth Proffesiynol canlynol hefyd i arbenigo yn y maes.

    - Swyddog Cydymffurfiaeth Uniondeb Ymchwil i ddarparu cyngor, cymorth ac arweiniad ar foeseg ac uniondeb ymchwil, datblygu a gweithredu polisïau, hyfforddiant, archwiliad, ac i weithredu fel cyswllt cyntaf ar gyfer achosion camymddygiad mewn ymchwil a

    - Swyddog Llywodraethu Ymchwil i sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gofynion y Fframwaith Llywodraethu Ymchwil a'r Awdurdod Ymchwil Iechyd o ran moeseg ymchwil, llywodraethu a noddi prosiectau ymchwil.

11. Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at sefydlu uned benodol ar gyfer Uniondeb Ymchwil o fewn y Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu (REIS).

12. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu strwythurau llywodraethu ymchwil effeithiol ar bob lefel er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag ymrwymiadau'r Concordat. Mae Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, sy'n cwrdd unwaith y tymor, â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod yr holl ymchwil a wneir ar safleoedd y Brifysgol yn cydymffurfio â'r safonau uniondeb uchaf.

13. Cadeirydd yr Is-bwyllgor yw'r Arweinydd Academaidd ar gyfer Uniondeb Ymchwil ac mae ei aelodau'n cynnwys cadeiryddion pwyllgorau moeseg a llywodraethu ymchwil y Colegau a chynrychiolwyr o adrannau gwasanaethau proffesiynol. Mae'r pwyllgor yn derbyn diweddariadau ac adroddiadau rheolaidd gan bwyllgorau'r Colegau ac mae'n cynnig arweiniad ar faterion moesegol. Mae Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol yn adrodd i Bwyllgor Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol ac i'r Senedd.

14. Mae gan bob Coleg/Ysgol Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil sy'n gyfrifol am gymeradwyaeth foesegol ymchwil staff a myfyrwyr. Yn ogystal, ceir Corff Llesiant Anifeiliaid ac Adolygiad Moesegol sy'n adolygu ceisiadau ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid. Mae'r pwyllgorau hyn yn darparu arweiniad a chymorth i sicrhau bod pob cais ymchwil yn cael y lefel briodol o graffu.

***Polisïau a Phrosesau***

15. Yn ystod 2015-16, datblygodd y Brifysgol Fframwaith Polisi ar Uniondeb Ymchwil: Moeseg a Llywodraethu, yn unol â phecyn cymorth hunanasesu UKRIO. Adolygwyd y fframwaith polisi gan Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO) a chafodd newidiadau a awgrymwyd i'r polisïau Camymddygiad mewn Ymchwil a Chwythu'r Chwiban eu cynnwys. Cafodd y Fframwaith ei adolygu eto yn 2017 i sicrhau bod y polisïau'n berthnasol a'u bod yn amlygu arfer gorau.

16. Mae'r fframwaith polisi'n cynnwys gwybodaeth am strwythurau llywodraethu ymchwil y Brifysgol, yn ogystal â'r polisïau canlynol:
    - *Polisi ar gymeradwyaeth foesegol*
    - *Polisi ar ymchwil gofal iechyd*
    - *Polisi ar ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol*
    - *Polisi ar ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid*
    - *Polisi ar honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil*
    - *Polisi ar chwythu'r chwiban*
    - *Polisi ar ddiogelu data ymchwil*
    - *Polisi ar reoli data ymchwil*
    - *Polisi ar eiddo deallusol a gweithdrefnau ar gyfer gweithredu eiddo deallusol*
    - *Polisi ar wrthdaro buddiannau mewn ymchwil, ymgynghori, eiddo deallusol masnachol*
    - *Polisi ar ymchwil gan fyfyrwyr*
    - *Hyfforddiant uniondeb ymchwil*
    - *Polisi ar ymgymryd ag ymchwil gyda phlant a phobl ifanc*
    - *Polisi ar gyfer ymchwil clinigol*

17. Mae'r polisïau a restrir uchod ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol yn http://www.swansea.ac.uk/research/researchintegrity/research-integrity-policies/ Cânt eu hadolygu o bryd i'w gilydd i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, gofynion rheoleiddio ac arfer ymchwil.

18. Mae polisïau newydd ynghylch Gweithio gyda Phlant a Grwpiau sy'n Agored i Niwed a Pholisi ar gyfer Ymchwil Clinigol wedi cael eu hychwanegu at y fframwaith yn 2017 i adlewyrchu arfer gorau cyfredol.

19. Mae polisi newydd ar asesu risg prosiectau ymchwil wedi cael ei lunio er mwyn sicrhau bod prosiectau ymchwil yn derbyn adolygiad sy'n gymesur â'r risgiau a gyflwynir yn y cynnig ymchwil. Pan fydd y polisi hwn wedi cael ei dderbyn gan Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, caiff ei gynnwys yn y fframwaith.

***Hyfforddiant***

20. Er mwyn hyrwyddo diwylliant o uniondeb ymchwil, prynodd y Brifysgol becyn hyfforddi ar-lein ar uniondeb ymchwil (Epigeum) yn 2016/17. Cafodd y pecyn hyfforddiant ei addasu i ddiwallu anghenion Prifysgol Abertawe a'i ddarparu ar gyfer hyfforddiant staff ym mis Awst 2017. Mae'r hyfforddiant ar-lein hwn yn orfodol i bob aelod staff sy'n ymwneud ag ymchwil. Mae'r hyfforddiant ar gael mewn pum maes pwnc penodol a cheir prawf ar ddiwedd y cwrs.

21. Hyd yn hyn, mae 503 o aelodau staff wedi cofrestru ar y cwrs ac mae 341 wedi'i gwblhau'n llwyddiannus (hyd at 7 Mehefin 2018). Mae gweithgareddau i hyrwyddo'r cwrs ymhellach yn yr arfaeth ar gyfer 2017/18 i gyrraedd rhagor o gyfranogwyr.

22. Yn ogystal â'r hyfforddiant ar-lein, mae pecyn hyfforddiant ar-lein ychwanegol ar uniondeb ymchwil ar gyfer staff a myfyrwyr yn yr arfaeth i'w gyflwyno drwy wasanaethau datblygu a hyfforddiant staff y Brifysgol. Bydd y sesiynau wyneb yn wyneb, dysgu dros ginio, hyn yn canolbwyntio ar bolisïau uniondeb ymchwil, adolygiad moesegol ymchwil, noddi ymchwil a gweithio gyda meinweoedd dynol.

23. Mae'r Brifysgol hefyd wedi tanysgrifio i becyn hyfforddiant ar-lein ar y thema *'Diogelu mewn Addysg Uwch'.* Anogir ymchwilwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed gwblhau'r hyfforddiant hwn.

***Gwefan***

24. Datblygwyd gwefan uniondeb ymchwil sy'n cynnwys polisïau, gweithdrefnau a gwybodaeth ar gyfer staff, myfyrwyr ac ymwelwyr. Mae pob Coleg/Ysgol wedi datblygu tudalennau gwe ar foeseg ymchwil sy'n cynnwys dolenni i'r prif dudalennau uniondeb ymchwil er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth.

25. Mae taflen ar uniondeb ymchwil wedi cael ei chynhyrchu a'i dosbarthu, ac mae ar gael ar y wefan yn Gymraeg a Saesneg. Nod y daflen hon yw hyrwyddo ymhellach ymrwymiad y Brifysgol i uniondeb ymchwil a'r cymorth sydd ar gael.

***Adolygiad Annibynnol***

26. Darparodd y Brifysgol gefnogaeth i Goleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd i brynu system ar gyfer cymeradwyaeth foesegol ceisiadau a chynnal peilot ar-lein. Cefnogwyd y Coleg Gwyddoniaeth wrth ddatblygu system ar-lein yn fewnol ar gyfer cymeradwyaeth foesegol ceisiadau. Mae'r systemau hyn yn cael eu treialu ar hyn o bryd. Os profir eu bod yn effeithiol, cânt eu cyflwyno i weddill y Brifysgol â'r nod o gysoni'r broses o adolygu ceisiadau moesegol.

27. Yn ystod 2016, cynhaliwyd archwiliad mewnol i sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r pum ymrwymiad a amlinellir yn y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Barn yr adroddiad, a dderbyniwyd ym mis Medi 2016, oedd 'Sicrwydd Sylweddol' a chafwyd un argymhelliad yn unig: dylid darparu hyfforddiant cychwynnol ar uniondeb ymchwil gan gyfeirio'n benodol at y Concordat. Gweithredwyd ar yr argymhelliad hwn drwy ddarparu'r hyfforddiant a nodir uchod.

28. Mae'r Brifysgol yn danysgrifiwr Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU, sy'n darparu cyngor ac arweiniad perthnasol i bob disgyblaeth ymchwil a chylch gorchwyl rheoleiddiol. Mae'r Brifysgol wedi ceisio cyngor gan UKRIO ar faterion sy'n ymwneud â datblygu polisi; ac aeth cynrychiolwyr o'r Brifysgol i gynhadledd flynyddol UKRIO, er mwyn achub ar y cyfle i ddysgu a rhannu arfer gorau.

***CAMYMDDYGIAD MEWN YMCHWIL***

29. Mae gan y Brifysgol sianelau sefydledig a chyfrinachol er mwyn rhoi gwybod am honiadau o gamymddygiad drwy fynediad cyfyngedig i fewnflwch e-bost camymddygiad mewn ymchwil.

30. Cyfeiriodd y Brifysgol at ganllawiau Cynghorau Ymchwil y DU a cheisiodd gyngor arbenigol gan UKRIO wrth lunio'r polisi a'r prosesau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil.

31. Y Cofrestrydd yw'r uwch swyddog a enwir yn y Brifysgol â chyfrifoldeb am dderbyn ac ymateb i honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil.

32. Mae manylion am y prosesau hysbysu ar gael ar y wefan yn http://www.swansea.ac.uk/research/researchintegrity/researchmisconduct/

33. Yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17, derbyniodd y Brifysgol dri honiad o gamymddygiad mewn ymchwil, cwblhawyd dau ymchwiliad o fewn y flwyddyn a bu un yn parhau yn 2017/18. Darperir crynodeb yn y tabl isod:

| Honiad | Natur y camymddygiad honedig | Canlyniad |
|---|---|---|
| 1 | Trefniadau cynnal ymchwil (cydsyniad gwybodus) | Yn parhau ym mlwyddyn academaidd 2017/18 |
| 2 | Llên-ladrad/gwadu awduriaeth | Heb ei brofi<br>Gwrthodwyd oherwydd diffyg tystiolaeth ar y cam cychwynnol. |
| 3 | Trefniadau cynnal ymchwil | Heb ei brofi |

| | | |
|---|---|---|
| | (cydsyniad gwybodus) | Nid oedd yn gyson â'r diffiniad o gamymddygiad mewn ymchwil. Ymdriniwyd â'r achos yn y Coleg fel enghraifft o arfer gwael mewn ymchwil. |

34. Lluniwyd y datganiad hwn gan y Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi a chafodd ei gymeradwyo gan yr Is-Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil.